



Nodiadau N5BA

Nodiadau ar gyfer hawlwr ar gwblhau ffurflen hawlio meddiant o eiddo wedi ei leoli'n gyfan gwbl yng Nghymru

(Trefn gyflym)

Cyn dechrau llenwi'r ffurflen hawlio

- Darllenwch yr holl nodiadau sy'n dilyn y drefn y mae angen gwybodaeth ar y ffurflen.
- Os ydych yn llenwi'r ffurflen hawlio â llaw, defnyddiwch inc du ac ysgrifennu mewn llythrennau bras.
- Copiwch y ffurflen hawlio a'r atodiadau wedi'u cwblhau fel bod gennych un copi ar gyfer chi eich hun, un copi ar gyfer y llys ac un copi ar gyfer pob diffynnydd.

Ceir rhagor o wybodaeth yma - <https://gov.wales/housing>

Manylion yr hawliad a'r partïon

Nodwch eich enw ac enw(au) llawn y diffynnydd (diffynyddion), cyfeiriad yr eiddo ac enw a chyfeiriad y llys lle'r ydych yn dymuno dechrau achos.

Os ydych chi'n defnyddio Cyfrif Ffi (PBA) neu'n gwneud cais am Help i Dalu Ffioedd (HWF) dylech gynnwys eich cyfeirnod, fel arall dylech nodi swm y ffi ac amgáu'r ffi gyda'ch cais.

Dylech ddarparu cyfeiriad gan gynnwys cod post i chi eich hun a'r diffynnydd (diffynyddion).

Os nad oes gan gyfeiriad god post bydd angen i chi ofyn i'r barnwr am ganiatâd i gyflwyno'r cais heb yr wybodaeth hon. Nid oes ffi ychwanegol am hynny, ond ni fydd y llys yn caniatáu i'ch cais gael ei gyflwyno heb y cod post, oni bai bod gennych ganiatâd gan y barnwr.

Cyflwyno Rhybudd dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016)

Adran 171

Os cyflwynwyd Rhybudd o dan Adran 171 (rhybudd landlord yn dilyn rhybudd deiliad contract),

rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Mae copi o'r rhybudd hwnnw a nodir â'r llythyren 'C' ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Mae copi o'r rhybudd a roddwyd i'r hawlydd gan y diffynnydd(diffynyddion) (o dan adran 168 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016) wedi'i atodi i'r ffurflen hawlio a nodir â'r llythyren 'D'.

Dechreuir yr hawliad hwn o fewn y cyfnod o chwe mis gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddodd yr hawlydd y rhybudd o dan adran 171 i'r diffynnydd (diffynyddion).

Ni roddwyd y rhybudd o dan adran 171 i'r diffynnydd (diffynyddion) ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis gan ddechrau gyda'r dyddiad a nodir yn y rhybudd o dan adran 168, fel y dyddiad y byddai'r diffynnydd (diffynyddion) yn ildio meddiant o'r annedd.

Adran 173

Os cyflwynir rhybudd o dan adran 173 (rhybudd landlord), rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Mae copi o'r rhybudd hwnnw a nodir â'r llythyren 'C' ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Nid oedd y dyddiad a nodir yn y rhybudd fel y dyddiad y mae'n rhaid i'r diffynnydd (diffynyddion) ildio meddiant yn llai na chwe mis ar ôl i'r rhybudd gael ei roi i'r diffynnydd (diffynyddion), neu ddim llai na deufis ar ôl i'r rhybudd gael ei roi i'r diffynnydd(diffynyddion) pan fo'r contract meddiant yn dod o fewn Atodlen 8A neu baragraff 25A o Atodlen 12 (contract wedi'i drosi) Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Os nad yw'r contract meddiant yn dod o fewn Atodlen 9 neu baragraff 25A o Atodlen 12 (contractau wedi'u haddasu) Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni roddodd yr hawlydd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) yn ystod chwe mis cyntaf ei meddiannaeth neu, lle'r oedd y contract meddiant yn gontract meddiant dirprwyol, ni roddodd yr hawlydd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) cyn diwedd y cyfnod o chwe mis yn dechrau gyda dyddiad meddiannaeth y contract gwreiddiol.

Os yw'r contract meddiant yn gontract wedi'i drosi, ni roddodd yr hawlydd rhybudd i'r diffynnydd o fewn y pedwar mis cyntaf o feddiannaeth neu, lle'r oedd y contract meddiant yn gontract meddiant dirprwyol, ni roddodd yr hawlydd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis gan ddechrau gyda dyddiad meddiannaeth y contract gwreiddiol.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 31 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chyflwynwyd rhybudd i'r diffynnydd ar adeg pan nad oedd y diffynnydd (diffynyddion) wedi cael datganiad ysgrifenedig yn unol ag adran 31(1) a (2). Os yw'r contract yn gontract sydd wedi'i drosi, nid yw'r cyfyngiadau o dan 9A yn berthnasol am y cyfnod darparu gwybodaeth o chwe mis gan ddechrau gyda'r 1af o Ragfyr 2022.

At hynny, pan fo'r hawlydd yn flaenorol wedi methu â chydymffurfio ag adran 31 o'r Ddeddf a phan fo paragraff 1 o Atodlen 9A i'r Ddeddf yn berthnasol (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 12A o Atodlen 12 i'r Ddeddf, yn achos contractau wedi'u trosi) ni chafodd rhybudd ei gyflwyno i'r diffynnydd(diffynyddion) cyn diwedd y cyfnod cyfyngedig (6 mis yn dechrau gyda'r diwrnod y rhoddodd yr hawlydd y datganiad ysgrifenedig i'r diffynnydd(diffynyddion)).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 39 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chaniateir cyflwyno rhybudd ar unrhyw adeg pan nad oedd yr hawlydd wedi darparu rhybudd sy'n ofynnol o dan adran 39 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac y mae rheoliad 6(5) o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 6(5) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i roi tystysgrif perfformiad ynni dilys i denant).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf 2016 ac y mae rheoliad 5 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fydd yr annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 5(3) o'r Rheoliadau hynny (methiant i sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio ac, mewn rhai amgylchiadau, larymau carbon monocsid wedi eu gosod mewn annedd), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A Deddf 2016 ac y mae rheoliad 6 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Annedd sy'n ffit i bobl fyw ynddi) (Cymru) 2022 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 6(6) o'r rheoliadau hynny (methiant i gael adroddiad cyflwr trydanol, neu i roi adroddiad o'r fath i ddeiliad y contract neu gadarnhad ysgrifenedig o waith trydanol arall penodol), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) Atodlen 9A i Ddeddf 2016 ac y mae rheoliad 36 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 36(6) neu (yn ôl y digwydd) (7) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i ddarparu neu arddangos adroddiad ar ddiogelwch ayyb. o osodiadau nwy).

Pan fo'r hawlydd wedi tynnu rhybudd blaenorol a roddwyd o dan adran 173 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ôl yn ystod y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben gyda'r dyddiad y rhoddwyd y rhybudd hwn i'r diffynnydd gan yr hawlydd, mae'r rhybudd dilynol hwn wedi'i roi i'r diffynnydd o fewn 28 diwrnod i'r rhybudd cyntaf gael ei roi.

Mae cyfnod o 6 mis fan leiaf wedi mynd heibio rhwng pan roddodd yr hawlydd rhybudd i'r diffynnydd o dan adran 173 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 y mae'r hawliad hwn yn gysylltiedig â hi, a diwedd y cyfnod pan allai'r hawlydd fod wedi gwneud hawliad meddiant yn dilyn rhoi unrhyw rhybudd blaenorol o dan adran 173 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

O fewn y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben gyda'r dyddiad y rhoddodd yr hawlydd rhybudd i'r diffynnydd o dan adran 173, nid yw'r llys wedi gwrthod gwneud gorchymyn meddiant o blaid yr hawlydd am ei fod o'r farn bod yr hawliad yn erbyn y diffynnydd yn hawliad dialgar (gweler adran 217 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

Ni chychwynnir yr hawliad hwn:

- a. cyn y dyddiad a nodir yn y rhybudd a roddwyd gan yr hawlydd i'r diffynnydd(diffynyddion), neu;
- b. ar ôl diwedd y cyfnod o ddeufis sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw.

Adran 186

Os oes Rhybudd o dan adran 186 (diwedd cyfnod penodol) neu baragraff 25B(2) o Atodlen 12 wedi ei roi, **rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:**

Mae copi o'r rhybudd hwnnw a nodir â'r llythyren 'C' ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Mae'r contract meddiannaeth yn gontract safonol cyfnod penodol o fewn Atodlen 9B neu baragraff 25B(2) o Atodlen 12 (contract wedi'i drosi), o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhodddwyd y rhybudd i'r diffynnydd cyn neu ar ddiwrnod olaf y cyfnod a nodir yn y contract, er mwyn rhoi meddiant ar ddyddiad a nodir yn y rhybudd hwnnw.

Nid oedd y dyddiad penodedig cyn diwrnod olaf y cyfnod a nodir yn y contract ac nid oedd yn llai na deufis ar ôl y diwrnod y rhodddwyd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion). Ni chychwynir yr hawliad hwn cyn diwedd y contract safonol tymor penodol.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 31 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chyflwynwyd rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) ar adeg pan na roddwyd datganiad ysgrifenedig i'r diffynnydd yn ôl gofynion adran 31(1) a (2). Lle mae'r contract yn gontract wedi'i drosi nid yw'r cyfyngiadau o dan 9A yn berthnasol i'r cyfnod darparu gwybodaeth o chwe mis gan ddechrau ar y 1af o Ragfyr 2022.

At hynny, pan fo'r hawlydd wedi methu â chydymffurfio ag adran 31 o'r Ddeddf yn y gorffennol a phan fo paragraff 1 o Atodlen 9A i'r Ddeddf yn berthnasol (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 12A o Atodlen 12 i'r Ddeddf, yn achos contractau wedi'u trosi) ni chafodd rhybudd ei gyflwyno i'r diffynnydd(diffynyddion) cyn diwedd y cyfnod cyfyngedig (6 mis yn dechrau ar y diwrnod y rhodddod yr hawlydd y datganiad ysgrifenedig i'r diffynnydd(diffynyddion)).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 39 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chaniateir cyflwyno rhybudd ar unrhyw adeg pan nad oedd yr hawlydd wedi darparu rhybudd sy'n ofynnol o dan adran 39 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac y mae rheoliad 6(5) o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 yn gymwys iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 6(5) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i roi tystysgrif perfformiad ynni dilys i denant).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf 2016 ac y mae rheoliad 5 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Anedd i Bobl Fyw Ynddi)) (Cymru) 2022 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 5(3) o'r Rheoliadau hynny (methiant i sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio ac, mewn rhai amgylchiadau, larymau carbon monocsid wedi'u gosod mewn annedd), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A Deddf 2016 ac y mae rheoliad 6 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Anedd sy'n ffit i bobl fyw ynddi) (Cymru) 2022 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 6(6) o'r rheoliadau hynny (methiant i gael adroddiad ar gyflwr gwaith trydanol, neu i roi adroddiad o'r fath i ddeiliad y contract neu gadarnhad ysgrifenedig o waith trydanol arall penodol), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf 2016

ac y mae rheoliad 36 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 36(6) neu (yn ôl y digwydd) (7) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i ddarparu neu arddangos adroddiad ar ddiogelwch ayyb. o osodiadau nwy).

Pan fo'r hawlydd wedi tynnu rhybudd blaenorol a roddwyd o dan adran 186 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ôl yn ystod y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben ar y dyddiad y rhoddwyd y rhybudd hwn i'r diffynnydd gan yr hawlydd, mae'r rhybudd dilynol hwn wedi'i roi i'r diffynnydd o fewn 28 diwrnod i roi'r rhybudd cyntaf.

Mae'r dyddiad a nodir yn y rhybudd a roddwyd gan yr hawlydd i'r diffynnydd(diffynyddion), sef y dyddiad lle'r oedd y diffynnydd(diffynyddion) i ildio meddiant o'r annedd, bellach wedi mynd heibio ond nid yw'r cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw wedi mynd heibio.

Adran 192

Os rhoddwyd rhybudd o dan adran 192 (rhybudd landlord yn dilyn rhybudd deiliad contract ar gymal torri) rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Mae copi o'r rhybudd hwnnw a nodir â'r llythyren 'C' ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Mae copi o'r rhybudd a roddir i'r hawlydd gan y diffynnydd(diffynyddion) (o dan adran 189 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016) wedi'i atodi i'r ffurflen hawlio hon a nodir â'r llythyren 'D'.

Dechreuir yr hawliad hwn o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddwyd y rhybudd o dan adran 192 i'r diffynnydd(diffynyddion).

Ni roddwyd y rhybudd o dan adran 192 i'r diffynnydd(diffynyddion) ar ôl terfyn y cyfnod o ddau fis yn dechrau ar y dyddiad a nodir yn y rhybudd o dan adran 189, fel y dyddiad y byddai'r diffynnydd(diffynyddion) yn ildio meddiant o'r annedd.

Adran 196

Os yw Rhybudd o dan adran 196 (cymal torri landlord) wedi ei roi **rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:**

Mae copi o'r rhybudd hwnnw a nodir â'r llythyren 'C' ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Gwneir y contract safonol tymor penodol am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy neu mae o fewn Atodlen 9C neu mae'n gontract tymor penodol wedi'i drosi (p'un a yw'n cael ei wneud am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy ai peidio).

Nid yw'r dyddiad a nodir yn y rhybudd, fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r diffynnydd(diffynyddion) ildio meddiant o'r annedd, yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion), neu ddim llai na deufis pan fo'r contract meddiant yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 neu'n gontract cyfnod penodol wedi'i drosi;

Os nad yw'r contract meddiant yn dod o fewn Atodlen 9 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac nad yw'n gontract cyfnod penodol wedi'i drosi, ni roddwyd y rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) gan yr hawlydd cyn diwedd y cyfnod o 18 mis yn dechrau ar y ddyddiad meddiannu y contract.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 31 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chyflwynwyd rhybudd i'r diffynnydd(diffynyddion) ar adeg pan na roddwyd datganiad ysgrifenedig i'r diffynnydd yn ôl gofynion adran 31(1) a (2). Lle mae'r contract yn gontract wedi'i drosi nid yw'r cyfyngiadau o dan 9A yn berthnasol am y cyfnod darparu gwybodaeth o chwe mis gan ddechrau ar y 1af o Ragfyr 2022.

Yn ogystal, pan fo'r hawlydd wedi methu â chydymffurfio ag adran 31 o'r Ddeddf yn y gorffennol a phan fo paragraff 1 o Atodlen 9A i'r Ddeddf yn berthnasol (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 12A o Atodlen 12 i'r Ddeddf, yn achos contractau wedi'u trosi) ni chafodd rhybudd ei gyflwyno ar y diffynnydd(diffynyddion) cyn diwedd y cyfnod cyfyngedig (6 mis yn dechrau ar y diwrnod y rhoddodd yr hawlydd y datganiad ysgrifenedig i'r diffynnydd(diffynyddion)).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ac sydd ag adran 39 o'r Ddeddf honno wedi'i hymgorffori fel un o delerau'r contract, ni chaniateir cyflwyno rhybudd ar unrhyw adeg pan nad oedd yr hawlydd wedi darparu rhybudd sy'n ofynnol o dan adran 39 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth). Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac y mae rheoliad 6(5) o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 6(5) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i roi tystysgrif perfformiad ynni dilys i denant).

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf 2016 ac y mae rheoliad 5 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 yn gymwys iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 5(3) o'r Rheoliadau hynny (methiant i sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio ac, mewn rhai amgylchiadau, larymau carbon monocsid wedi eu gosod mewn annedd), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A Deddf 2016 ac y mae rheoliad 6 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl rheoliad 6(6) o'r rheoliadau hynny (methiant i gael adroddiad ar gyflwr gwaith trydanol, neu roi adroddiad o'r fath i ddeiliad y contract neu gadarnhad ysgrifenedig o waith trydanol arall penodol), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol i'r landlord o dan Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gymryd camau i atal yr annedd rhag cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn ôl y rheoliad hwnnw.

Os yw'r contract yn gontract safonol a grybwyllir ym mharagraff 7(1) o Atodlen 9A i Ddeddf 2016 ac y mae rheoliad 36 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn berthnasol iddo, ni roddwyd y rhybudd ar adeg pan nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â rheoliad 36(6) neu (yn ôl y digwydd) (7) o'r rheoliadau hynny (gofyniad i ddarparu neu arddangos adroddiad ar ddiogelwch ayyb. gosodiadau nwy).

O fewn y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben ar y dyddiad y rhoddodd yr hawlydd rhybudd i'r diffynnydd o dan adran 194, nid yw'r llys wedi gwrthod gwneud gorchymyn meddiant o blaid yr hawlydd am ei fod o'r farn bod hawliad yn erbyn y diffynnydd yn hawliad dialgar (gweler adran 217 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

Ni chychwynnir yr hawliad hwn:

- a. cyn y dyddiad a nodir yn y rhybudd a roddwyd gan yr hawlydd i'r diffynnydd(diffynyddion), **neu**
- b. ar ôl diwedd y cyfnod o ddeufis sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw.

Cadw blaendal dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016)

Adran 173

Os cyflwynir rhybudd o dan adran 173 (rhybudd landlord), **rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:**

Ni roddwyd Rhybudd Adran 173 ar adeg pan nad yw blaendal y gofynnodd y landlord amdano ar ffurf na chaniateir gan adran 43 wedi ei ddychwelyd i'r sawl a'i roddodd.

Ni roddwyd Rhybudd Adran 173 pan oedd unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol mewn bod:

Talwyd y blaendal yng nghyswllt y contract ond ni chydymffurfiwyd â gofynion cychwynnol cynllun blaendal awdurdodedig;

b. Talwyd blaendal yng nghyswllt y contract ond nid oedd y landlord wedi darparu'r wybodaeth oedd ei hangen dan adran 45(2)(b); **neu**

c. Nid oedd blaendal a dalwyd yng nghyswllt y contract yn cael ei ddal yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.

Oni bai:

Bod blaendal a dalwyd yng nghyswllt y contract wedi cael ei ddychwelyd i'r diffynnydd(diffynnyddion) (neu i unrhyw un a dalodd y blaendal ar ei ran) naill ai'n llawn neu gyda'r fath didyniadau ag y gellir cytuno arnynt, neu

b. Gwnaed cais i'r Llys Sirol o dan baragraff 2 o Atodlen 5 ac fe'i penderfynwyd gan y Llys Sirol, neu fe'i tynnwyd yn ôl neu ei setlo drwy gytundeb rhwng y partïon.

Rhybudd dan Adran 173 a Thaliadau Gwaharddedig a Dal Blaendal

Rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Ni roddwyd rhybudd adran 173 ar adeg pan fo taliad gwaharddedig (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) wedi ei wneud mewn perthynas â'r contract, fel y'i disgrifir yn adran 2 neu 3 o'r Ddeddf honno ac nad yw'r taliad gwaharddedig hwnnw wedi'i ad-dalu.

Ni roddwyd rhybudd adran 173 ar adeg pan oedd blaendal (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) a dalwyd mewn perthynas â'r contract heb ei ad-dalu ac mae'r methiant i ad-dalu symiau'r blaendal yn gyfystyr â thorri gofynion Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(Wrth benderfynu i'r dibenion hyn a yw taliad gwaharddedig neu flaendal wedi'i ad-dalu, mae'r taliad neu'r blaendal i'w drin fel un sydd wedi'i ad-dalu i'r graddau (os o gwbl) ei fod wedi'i ddefnyddio tuag at naill ai dalu rhent o dan y contract neu daliad sy'n ofynnol fel sicrwydd mewn perthynas â'r contract).

Adran 186

Os oes Rhybudd o dan adran 186 (diwedd cyfnod penodol) neu baragraff 25B(2) o Atodlen 12 wedi ei roi, **rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:**

Ni roddwyd rhybudd Adran 186 neu rhybudd o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 ar adeg pan nad yw sicrwydd sy'n ofynnol gan y landlord ar ffurf na chaniateir gan Adran 43 wedi cael ei ddychwelyd i'r sawl a'i rhoddodd.

Ni roddwyd rhybudd Adran 186 neu rhybudd o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 pan oedd unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol mewn bod:

Talwyd y blaendal yng nghyswllt y contract ond ni chydymffurfiwyd â gofynion cychwynnol cynllun

blaendal awdurdodedig;

- a. Talwyd blaendal yng nghyswllt y contract ond nid oedd y landlord wedi darparu'r wybodaeth oedd ei hangen dan adran 45(2)(b); **neu**
- b. Nid oedd blaendal a dalwyd mewn cysylltiad â'r contract yn cael ei gadw yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.

Oni bai:

Bod blaendal a dalwyd mewn cysylltiad â'r contract wedi cael ei ddychwelyd i'r diffynnydd(diffynyddion) (neu i unrhyw un a dalodd y blaendal ar ei ran) naill ai'n llawn neu gyda'r fath didyniadau ag y gellir cytuno arnynt, neu

Mae cais i'r Llys Sirol wedi'i wneud o dan baragraff 2 o Atodlen 5 ac mae wedi ei benderfynu gan y Llys Sirol, neu wedi'i dynnu'n ôl neu wedi'i setlo drwy gytundeb rhwng y partïon.

Rhybudd dan Adran 186 a Thaliadau Gwaharddedig a Dal Blaendal

Rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Ni roddwyd rhybudd dan adran 186 neu rhybudd o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 ar adeg pan fo taliad gwaharddedig (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) wedi'i wneud mewn perthynas â'r contract, fel y disgrifir yn adran 2 neu 3 o'r Ddeddf honno a'r taliad gwaharddedig hwnnw heb ei ad-dalu.

Ni roddwyd rhybudd dan adran 186 neu rhybudd o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 ar adeg pan na bo blaendal (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) a dalwyd mewn perthynas â'r contract wedi'i ad-dalu ac mae'r methiant i ad-dalu symiau'r blaendal yn gyfystyr â thorri gofynion Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(Wrth benderfynu i'r dibenion hyn a yw taliad gwaharddedig neu flaendal wedi'i ad-dalu, mae'r taliad neu'r blaendal i'w drin fel un sydd wedi'i ad-dalu i'r graddau (os o gwbl) ei fod wedi'i gymhwyso tuag at naill ai dalu rhent o dan y contract neu daliad sy'n ofynnol fel sicrwydd mewn perthynas â'r contract).

Adran 194

Os yw Rhybudd o dan adran 194 wedi ei roi rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Ni roddwyd Rhybudd Adran 194 ar adeg pan nad yw sicrwydd sy'n ofynnol gan y landlord ar ffurf na chaniateir gan Adran 43 wedi cael ei ddychwelyd i'r sawl a'i rhoddodd.

Ni roddwyd Rhybudd Adran 194 pan oedd unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol mewn bod:

Talwyd y blaendal yng nghyswllt y contract ond ni chydymffurfiwyd â gofynion cychwynnol cynllun blaendal awdurdodedig;

- a. Talwyd blaendal yng nghyswllt y contract ond nid oedd y landlord wedi darparu'r wybodaeth oedd ei hangen dan adran 45(2)(b); neu
- b. Nid oedd blaendal a dalwyd yng nghyswllt y contract yn cael ei gadw yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.

Oni bai:

Bod blaendal a dalwyd mewn cysylltiad â'r contract wedi cael ei ddychwelyd i'r diffynnydd(diffynyddion) (neu i unrhyw un a dalodd y blaendal ar ei ran) naill ai'n llawn neu gyda'r fath didyniadau ag y gellir cytuno arnynt, neu

c. Mae cais i'r Llys Sirol wedi'i wneud o dan baragraff 2 o Atodlen 5 ac mae wedi ei benderfynu gan y Llys Sirol, neu wedi'i dynnu'n ôl neu wedi'i setlo drwy gytundeb rhwng y partïon.

Rhybudd dan Adran 194 a Thaliadau Gwaharddedig a Dal Blaendal

Rydych yn cytuno bod y canlynol yn wir:

Ni roddwyd rhybudd adran 194 ar adeg pan oedd taliad gwaharddedig (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) wedi ei wneud mewn perthynas â'r contract, fel y'i disgrifir yn adran 2 neu 3 o'r Ddeddf honno ac nad yw'r taliad gwaharddedig hwnnw wedi'i ad-dalu.

Ni roddwyd rhybudd adran 194 ar adeg pan oedd blaendal (o fewn yr ystyr yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019) a dalwyd mewn perthynas â'r contract wedi'i ad-dalu ac mae'r methiant i ad-dalu symiau'r blaendal yn gyfystyr â thorri gofynion Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(Wrth benderfynu i'r dibenion hyn a yw taliad gwaharddedig neu flaendal wedi'i ad-dalu, mae'r taliad neu'r blaendal i'w drin fel un sydd wedi'i ad-dalu i'r graddau (os o gwbl) ei fod wedi'i gymhwyso tuag at naill ai dalu rhent o dan y contract neu daliad sy'n ofynnol fel diogelwch mewn perthynas â'r contract).